

Cymru yn mis Mai wedi gofyn ‘Pam fod y cyfryngau a’r wasg yn ein hanwybyddu? Pam mai at Yr Archesgob y maent yn mynd yn rheolaidd am ddatganiadau? Dwi am i’r neges fynd oddiyma heddiw ein bod yn bodoli a bod gennym lais a barn a bod Llais yr Eglwys Rhyddion i’w glywed.’

Nid yw’r cyfryngau (ar wahân i’r rhaglen *Bwrw Golwg*) wedi ymateb na chysylltu â mi yn ystod y pum mis a aeth heibio ond mae cryn sylw wedi bod i apwyntiad Yr Archesgob – ac felly mae’n amlwg mai dyna sut y mae’r cyfryngau yn mynd i barhau er bod ein Cyngor yn cynrychioli 9 enwad sy rhyngddynt, gyda rhyw 65,000 o aelodau mewn 1,600 o eglwys ledled Cymru, yn addoli trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg.

Gohebwy di-glem

Ni welais unrhyw sylw at gyflwyno 33 o Fedalau Aur i unigolion sy’n selogion yr ysgol Sul yng Nghymru a gyflwynwyd mewn gwasanaeth ym Mangor ar 28 Medi. Mae un fedal aur neu arian gan fabolgampwr yn cael sylw y Wasg a’r Cyfryngau ond ddim y 33 fedalau o 18 capel yng ngogledd Cymru. Mae’n ymddangos bod ymdrech fwriadol i anwybyddu yr Eglwys Rhyddion, heb gofio mai Eglwys Rydd ydi’r Eglwys yng Nghymru hefyd ers bron i ganrif, ond mae’n amlwg nad yw gohebwy yng Nghymru yn deall crefydd na hanes.

Beth bynnag yr hyn sy’n bwysig yn yr oes seciwlar, wrth grefyddol gyfoes yw ein bod i gyd fel Cristnogion yn cyd weithio i lefeinio ein cymunedau a dangos cariad Crist tuag at bob unigolyn. Mae cyfleoedd i bawb ym mhob rhan o’n gwlad i wneud hyn beth bynnag yw disgrifiad o’n swydd.

*Rheinallt Thomas, Llywydd
Cyngor Eglwys Rhyddion Cymru*

Dim Eglwys Sefydliedig

Archesgob Cymru NEU Archesgob yr Eglwys yng Nghymru?

Mae sylwadau a dadansoddiad diddorol yr Anglican Lyn Lewis Dafis am swydd Archesgob Cymru yn rhifyn Medi/Hydrif o *Cristion* ynghyd â’r sôn amdani yn y *Pedair Tudalen Gydenwadol* (21 Medi) â’r geiriau Archesgob yr Eglwys yng Nghymru o dan y llun yn fy ngorfodi i ymateb.



*Y Cristion
Medi/Hydrif*

yr unig ymateb a gefais oedd gan Brif Weithredwr CYTŪN oedd yn nodi mai’r arfer erbyn hyn yw galw yr Archesgob Anglicanaidd yng Nghymru yn Archesgob Cymru a’r Archesgob Pabyddol yn Archesgob Caerdydd.

Dilyn San Steffan

Roedd dadansoddiad Lyn Lewis Dafis yn mynegi bod un rheswm y mae’r Eglwys yng Nghymru yn gweld ei hun fel yr eglwys genedlaethol yn deillio o ddatblygiad Y Cynulliad ar y naill law tra’r ffactor arall oedd ‘dewis y cyfryngau i geisio ail-greu sefydliadau ar lun a delw ... San Steffan.’



*Erthygl y Parchg
Lyn Lewis Dafis*

Roedd hyn yn ddiddorol iawn gan fy mod i yn fy anerchiad wrth fy sefydlu yn Llywydd Cyngor Eglwys Rhyddion

Cyfeiriwyd sawl ymholiad i’r sylw yn dilyn apwyntiad Yr Esgob John Davies yn Archesgob. Yn wir mewn un oedfa yr oeddwn yn bresennol ynddi mynegodd y pregethwr ei fod yn fy ngweld yn y gynulleidfa ac y gobeithio y byddwn yn nodi nad oedd y fath swydd ag Archesgob Cymru yn gyfansoddiadol ers 1921.

Yn gyffredinol eisiau gwybod oedd yr ymholwyr ar ba sail yr oedd yn cael ei alw yn Archesgob Cymru. Ni allwn roi ateb mwy na dweud na wyddwn y rheswm ac yn wir bod hefyd Archesgob gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru. Er ymholi,

Tangnefedd

Ar fore Sul 24 Medi cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Hope-Siloh i ddatlu Diwrnod Heddwch Rhyngwladol. Y gwragedd a’r gwŷr ifanc oedd yng ngofal y gwasanaeth a chafwyd cyflwyniadau o gerddi a chaneuon i gofio am Heddwch Wyn ac eraill a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Diolch i Gwen Jones am greu’r cyflwyniad, i Eric Jones am ei gyfraniad cerddorol ac i’r aelodau a gymerodd ran. Cafwyd gwasanaeth safonol a bendithiol iawn.

Jennifer Clark



Diolch yn yr Hendy

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y plant a’r ieuencid yn y Tabernacl, Hendy-gwyn ar ddechrau Hydrif. Bwyd oedd y thema a chanolbwyntiwyd yn arbennig ar sut mae bara a bananas yn cyrraedd ein cartrefi. Casglwyd bocsys ar gyfer Operation Christmas Child a galwodd Tecwyn y mascot heibio yn ystod y te ar ôl y gwasanaeth. Gellir gweld fideo o’r plant lleiaf yn canu ar dudalen Facebook y capel – Tabernacl Hendy-gwyn.



Canu Mawl Gwefreiddiol

CYMANFA GANU CYFUNDEB LLUNDAIN

O dan arweiniad hwylus a medrus ein Harweinydd – Mary Lloyd Davies o Lanuwchlllyn, cafwyd canu bendigedig, gyda Mary'n ein hannog i



ystyried geiriau'r emynau gan wneud yn siŵr os nad oedd coma ar ddiwedd llinell y dylem ddal ymlaen i'r llinell nesaf. Tipyn o gamp i ambell un ohonom ond llwyddo a wnaethom o dan arweiniad y baton!

Eitemau arbennig

Eleni cawsom gyfraniadau cerddorol newydd i'r Gymanfa sef, deuwad gan Robert a James, sef, dau Gymro sy'n astudio yn Llundain. Eu dewis oedd 'Y Ddau Wladgarwr' – a'r ddau lais yn asio'n hyfryd ac roedd y gân yn ein hatgoffa o eiriau T. H. Parry-Williams, 'Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon'. Yn dilyn y bechgyn cawsom eitem gan Gôr y Boro, dan arweiniad Dr Haydn James, tra roedd eu harweinydd arferol, Mike Williams, yn canu yn y côr. Dyma'r côr a wnaeth argraff fawr yn Eisteddfod Genedlaethol Bodedern, Môn eleni ac sy'n barod iawn i ddod i wasanaethau Cymry Llundain. Roedd presenoldeb y côr yn

hybu'r harmonïau yn yr emynau ac yn gaffaeliad mawr i'r canu a oedd o dan arweiniad Mary yn dod ac ysbryd geiriau a thestun yr emynau yn fyw i ni gyd.

Llywyddu a llongyfarch

Mr Rob Nicholls, Eglwys Gymraeg Canol Llundain, Cadeirydd y Cyfundeb oedd yn llywyddu'r noson a darllenwyd Salm gan Mr Aldwyn Jones, Harrow. Mr John Jones y Boro oedd wrth yr organ ac efe gyfeiliodd hefyd i'r côr. Diolchodd ef i bawb a gymerodd ran mewn noson oedd yn ein hatgoffa o'n cefndir Cymreig a'n magwraeth yn ein heglwysi, ble yr **oedd** ac y **mae** addoli drwy ganu emynau yn datgan mawredd ein Harglwydd. Cafodd Mr Rob Nicholls gyfle hefyd i gyhoeddi a llongyfarch y Parchg Gwylfa Evans sydd yn dathlu 39 mlynedd fel Gweinidog yn Harrow ac er wedi ymddeol yn swyddogol yn dal i fod yn weithgar yn ein plith.

Diolchwyd hefyd i aelodau Harrow am y lluniaeth oedd wedi ei baratoi i ni ar ôl y Gymanfa – a chyfle unwaith eto i gymdeithasu fel Cymry sydd ar wasgar yn y brifddinas. Noson i'w chofio. Ar nos Sul olaf mis Medi cynhaliwyd Cymanfa Ganu flynyddol Cyfundeb Llundain. Cystal oedd y wefr a'r ysbrydoliaeth yn y canu yng Nghapel Harrow nos Sul, 24 Medi fel y byddai cymanfa fisol yn fodd i fyw i Gymry Llundain!

Mair Jones

Diffyg Cofio

Y mae rhai pobl yn ddiweddar wedi mynegi siom, at y diffyg sylw y mae llawer o gewri hanesyddol ein cenedl yn ei gael gan y Cynulliad. Tila iawn oedd unrhyw ymdrech swyddogol i gofio am William Salesbury a William Williams, Pantycelyn.

Wrth ymateb i'r mater hwn yn y Cynulliad, (meddai Golwg 360), fe ddywedodd Ysgrifennydd yr Economi, Ken Skates, ei fod yn siomedig iawn nad oedd yr un corff arall wedi dod at y Llywodraeth i ofyn am gefnogaeth i ddigwyddiadau i ddathlu Pantycelyn. Roedd hynny wedi digwydd yn achos yr awduron Saesneg eu hiaith, Dylan Thomas a Roald Dahl, ac roedd yr Ysgrifennydd wedi dweud



ddechrau'r flwyddyn y bydden nhw'n croesawu trafodaeth. 'Piti na fyddai'r Cynulliad wedi bod yn fwy rhagweithiol,' meddai Dr E. Wyn James, arbenigwr ar emynyddiaeth Cymru. Ychwanegodd, 'Ond mae hyn hefyd yn awgrymu nad oedd yr un o asiantaethau'r

Llywodraeth wedi gofyn am ddim. Mae yna elfen yn y Gymru amlddiwylliannol yma sydd braidd yn swil o roi sylw i Gristnogaeth – rhai yn elyniaethyus a rhai'n anwybodus. Rhwng hynny a'r ffaith fod hyn yn ymwneud â llenyddiaeth Gymraeg, mae peryg fod Pantycelyn wedi diodde o *double whammy*.'

Testun llawenydd felly oedd clywed bod y Llyfrgell Genedlaethol wedi trefnu digwyddiad yn y Cynulliad i nodi trichanmlwyddiant geni William Williams ar 18 Hydref. Gwell hwyr na hwyrach. Bydd rhaid cofio hysbysu'r Cynulliad pan fydd dyddiad neu ddathliad hanesyddol arall o bwys ar y gorwel.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Diwrnod Gweinidogion y Gogledd

**Festri Capel Coffa,
Cyffordd Llandudno
LL31 9HD**

Dydd Iau, 30 Tachwedd 2017

Byddwn yn dechrau am 10.30am
gyda phaned a chroeso

'Diffinio ac Ailddifinio'

Mrs Delyth Wyn Davies
Swyddog Dysgu a Datblygu Cymru,
yr Eglwys Fethodistaidd

'Y Ffordd y Daethom: Oes y Saint'

Y Parchedig J. Lloyd Jones
Ficer Plwyf Beuno Sant
Uwchgwyrfai

Bydd y cyfarfod yn gorffen am 1.00pm.

Os am gael cinio,
cysyllter â Thŷ John Penri ar
01792-795888
neu trwy e-bost at
nerys@annibynwyr.cymru

Edrychwn ymlaen at groesawu'r
Gweinidogion i Gyffordd Llandudno

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Diwrnod i Weinidogion y De

**Festri Capel Bethania,
Tymbl Uchaf SA14 6ED**

Dydd Iau, 9 Tachwedd 2017

11.00am – 3.30pm

'Paratoi cyflwyniadau ar gyfer gwasanaethau'

Rhodri Darcy
Swyddog Hyrwyddo a
Chyfathrebu'r Undeb

'Pam cefnogi Madagascar?'

Robin Samuel
Swyddog Cynnal ac
Adnoddau De Cymru

Darperir cinio am ddim

Edrychwn ymlaen at groesawu'r
gweinidogion i'r Tymbl Uchaf

Anfonwch e-bost i
undeb@annibynwyr.org
neu ffoniwch

Dŷ John Penri (01792-795888)
erbyn 3 Tachwedd i sicrhau eich cinio.

Barn Annibynnol

Y CYMRO MWYAF ERIOED?

Braf oedd cael ymweld â Llansannan fis yn ôl. Mae mynd am dro i fro fy mebyd wastad yn braf wrth reswm, ond roedd hwn yn ymweliad arbennig. Dyma lle y cyfarfu Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr i wrando ar Dr Gwynn Mathews yn darlithio ar William Salesbury. Ar ein ffordd cawsom gyfle i alw ym Myd Mari Jones a mwynhau arddangosfa yno, gan gynnwys fideos ar Salesbury, ac yn arbennig cawsom weld copi gwreiddiol o Destament 1567. Roedd y ddarlith yn ardderchog, yn fanwl ond heb fod yn drwm, yn llawn goleuni ac ysgolheictod. Cawsom ein hysbrydoli wrth glywed am gampau Salesbury, a rhyfeddu at ei orchestion. Mae'n fwriad iddi ymddangos yn *Y Cofiadur* cyn bo hir. Gwnewch yn siŵr o'ch copi.



Dr. Gwynn Mathews - llun o gwefan y BBC



Darlith Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr yn Llansannan

Yr arwr dyfodd yn gawr

Yn y cyfamser mae'n werth darllen cofiant James Pierce; *The Life and Work of William Salesbury – A Rare Scholar*, a gyhoeddir gan Y Lolfa. O waelod buarth Llys Aled, lle ces fy magu, gallwn weld Cae Du ar y llechwedd ar ochr draw Dyffryn Aled; yno y cafodd Salesbury ei eni. Does ryfedd iddo fod yn arwr i mi ers pan gofiat. Ond o wrando ar y ddarlith, ac wedi i mi ddarllen y llyfr, tyfodd yr arwr yn gawr. Fu ei fywyd personol ddim yn hawdd, gydag aelodau o'i deulu yn cyfreitha yn ei erbyn. Cuddir llawer o'i fywyd mewn niwl; byddai ysgolheigion yn falch o wybod llawer mwy am droeon ei yrfa. Er hynny, mae digonedd o ffeithiau ar gael i fedru creu portread ohono.

Arloeswr

Dyma'r gŵr a aeth ati gyntaf o ddirifi i gyfieithu'r ysgrythurau i Gymraeg. Ymddangosodd ei waith, *Kynniver Llith a Ban*, mor gynnar â 1551. Roedd mewn iaith y gallai'r cynulleidfaoedd ei deall. Ganrif ynghynt y dyfeisiwyd y wasg argraffu, cam aruthrol ymlaen mewn cyfathrebu. Cymerodd Salesbury fantais ohoni ac argraffu nifer dda o lyfrau. Defnyddiodd y dechnoleg ddiweddaraf, a gwneud y Gymraeg yn iaith mewn print yn gynnar.

leithydd

Roedd yn medru Saesneg, yn wahanol i'w gyd-Gymry bron i gyd. Medrai rai o brif ieithoedd y cyfandir; Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Wrth gwrs medrai Ladin; dyma iaith ei hyfforddiant ac iaith dysg. Yn dyngedfennol medrai Hebraeg a Groeg. Y llawysgrifau hynny oedd ganddo yn cyfieithu'r Salmau a'r Testament Newydd ohonynt; nid cyfieithu o gyfieithiadau a wnâi. Pan holid ef a oedd ei feistrolaeth o'r Gymraeg gymaint â'r ieithoedd eraill, barnai ei fod yn fwy hydrys yn iaith ei fam na'r un.



Testament Newydd Williams Salesbury yn Eglwys Llanycil

Dyn dewr

Roedd yn byw mewn cyfnod hynod beryglus i fod yn flaenllaw ym myd crefydd. Gorfu i amryw ffoi i'r cyfandir, Genefa yn arbennig. Cai brwdfrydwy Cristnogol, yn Brotestaniaid a Chatholigion, eu herlid, eu crogi a'u llosgi wrth y stanc. Bu'n rhaid i Salesbury aros o'r golwg yn ystod teyrnasiad Mari.

Roedd angen caniatâd i gyhoeddi a rhaid mynd i'r uchelfannau, at y Cyfrin Gyngor neu'r Brenin. Mae posibilrwydd cryf y mentrodd Salesbury gysylltu â Harri'r V111. Dim ond y dewr allai wneud hynny, ac yntau mor aml mewn hwyliau drwg o achos ei boenau corfforol a'i broblemau eraill. Ond cafodd Salesbury ei fendith.

Dyfalbarhad

Ef, mae'n debyg, oedd yn bennaf gyfrifol am ddeddf 1563 oedd yn gorchymyn yr esgobion i ddarparu cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl a'i osod ym mhob eglwys erbyn Gŵyl Ddewi 1567. Bwrw ymlaen â'r gwaith ei hun a wnaeth, a chael peth cymorth gan yr Esgob Richard Davies a Thomas Huet. Erbyn gwanwyn 1567 roedd y Llyfr Gweddi Gyffredin wedi'i argraffu. Yn y cyfnod hwnnw, gellid dadlau, bod y Llyfr Gweddi'n bwysicach na'r Testament. Gallai'r Cymry briodi, bedyddio, claddu yn Gymraeg am y tro cyntaf. Wedyn ym mis Hydref roedd y Testament Newydd Cymraeg yn eglwysy'r plwyf. Fe'i cyfrifir yn waith gorchestol, yn adlewyrchu'r gwreiddiol yn agos iawn, a'i iaith yn urddasol ac yn llifo. Yr unig ddiffyg yn y gwaith yw'r sillafu. Nid oedd Salesbury yn disgwyl i bob llythren gael ei hynganu, mwy nag y mae Saeson yn disgwyl clywed y 'b' yn *doubt* neu'r 'k' yn *know*. Ei fwriad oedd dangos bod llw o eiriau Cymraeg yn tarddu o'r Lladin. Lladin yw iaith glasurol dysg ac mae'r Gymraeg yn perthyn iddi. Nid iaith llwyn a pherth mohoni. Mae'n iaith Ewropeaidd sy'n haeddu parch.

Llafur cariad

Ni ddaeth elw i Salesbury ei hun yn ei lafur enfawr. Llafur cariad oedd gorchest y blynyddoedd. Costiodd y gwaith yn ddrud iddo. A hynny, cofier, mewn cyfnod pan oedd cymaint o uchelwyr Cymry wedi mudo i Lundain yng nghysgod Harri'r VII a buddugoliaeth Bosworth. Dewisodd Salesbury beidio â throci cefn ar ei gydwladwyr am diroedd brasach Lloegr, ac ymroi i wireddu ei ddyhead mawr o weld ei bobl yn cael ysgrythur yn eu hiaith. Ychydig cyn hynny y caed Deddf Uno (1536) oedd yn mynnu mai dim ond Saesneg oedd i'w defnyddio wrth weinyddu yng Nghymru. Trwy ei waith ef dygwyd y Gymraeg i'r golwg eto.

Bernir mai cael yr ysgrythurau yn yr iaith frodorol erbyn tua 1600 oedd un o'r ffactorau pwysicaf i'w chadw'n fyw. Prin y byddai hynny wedi digwydd yn ein hanes ni oni bai am William Salesbury. Ni chafodd ei werthfawrogi fel y dylai. Ychydig fu'n gefn iddo. Cael ei wawdio fu ei hanes mor aml. Tybed a ydy'r llanw yn troi o'r diwedd? Mae James Pierce yn ei gofiant ardderchog yn cyfeirio at ddynion eraill y mae ar Gymru ddyled fawr iddynt yn y cyfnod 1550–1600: John Prys, Gruffydd Robert, William Salesbury, Richard Davies, William Morgan, ond, 'mae'r ddyled fwyaf, o ddigon, i William Salesbury.' Fe o ddigon, nid o ychydig, neu efallai, ond **o ddigon**. Ie, ac yn fwy nag i William Morgan!

Gallai'r iaith fod wedi hen ddisgyn i'r tywyllwch oni bai amdano. Mae'r gwron hwn yn haeddu pob clod a diolch.

Dewi M. Hughes

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dalier sylw!

Mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Geraint Tudur, yn awyddus i ddod i gysylltiad ag unrhyw ddisgynyddion i

David Griffiths, y cenhadwr ym Madagascar

a gladdwyd ym mynwent Capel y Graig, Machynlleth, ym 1863.

Tybed a fyddai unrhyw ddisgynydd yn bod mor garedig â chysylltu, cyn gynted â phosibl, â Thŷ John Penri, naill ai trwy anfon e-bost at

elinor@annibynwyr.cymru

neu trwy ffonio
01792-795888

Diolch yn fawr iawn.

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:


**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

YCHWANEGIAD I'R TEULU

Yn niwedd Ionawr eleni (2017), ychwanegwyd at ein teulu ni pan ddaeth Macsen atom. Fe'i ganwyd yn Nhachwedd 2016 ym mhentref gwledig Llwyndyrus yng Ngodre'r Eifl, ac ymhen deufis



fe ddaeth i fyw i'n tŷ ni yn fwndel bywiog, blewog. Prysoraf i ddweud mai ci yw Macsen neu Macs, ac fel pob anifail anwes, enillodd ei le'n llwyr, neu'n hytrach, hawlio'i le. Ond ar y cyfan, y mae'n gi da, yn ufudd, ac yn eithriadol o ffyddlon.

Macsen yn Salem

Petai ei enw'n MacseM, mi fyddai yna odl berffaith glir i MacseM yn SaleM ... ond dyna fo. Ar sawl achlysur (heblaw achlysuron cyhoeddus), bu Macsen yn festri Salem, Porthmadog, yn rhedeg a phrancio tra roeddem ar ryw berwyl neu'i gilydd. Ond un diwrnod, cafodd Macs ddyrchafiad o'r festri i'r capel gan fy mod i wedi mynd a fo efo fi un pnawn, a do, mi fentrais ei ollwng yn rhydd yn capel sy'n dal saith cant o bobl. Dyna lle roedd o'n busnesu mewn corneli, yn cerdded rhwng seti, ond yn sydyn reit brasgamodd i'r cyntedd (gan fod y drws yn agored) a rhedeg i fyny i'r oriel. I'r sawl a wŷr am yr adeilad, yn yr oriel y mae'r organ bib. Bu o gwmpas honno. A dyna lle ro'n innau yn fy mhryder (am resymau pur amlwg) yn ceisio ei gael i lawr o'r oriel. Er i mi geisio pob ffordd drwy gerdded rhwng y seti (a thros ambell un), i macnabs, roedd y rhyddid yn y galeri yn gêm rhy dda i'w therfynnu! Yn y diwedd, llwyddais i'w ddal a'i gario i lawr y capel.

Mentro yn Salem

Cyn gadael y capel, ro'n i eisiau mynd i nôl llyfr oedd wedi'u gadael ar sêr y pulpud. A dyma fentro ... Beth wnes i? Mi

adewais i Macs wrth droed grisau'r pulpud, ac y mae 'na wyth gris iddo fo, a dyna lle roedd o yng ngodre'r pulpud yn syllu i'r entychion megis, yn anadlu'n gyflym, a'r olwg yn ei lygaid fel petai o'n erfyn arna i, 'Ty'd lawr o fanna!' A dyma ddechrau meddwl, ac o gopa'r pulpud uchel, ceisiais gael Macs i ddringo'r grisau tuag ataf. Dyna lle ro'n i o'r copa yn erfyn arno fo, 'Ty'd i fyny ngwash i. Ty'd, ty'd tyyyyyy'd ...' Ond wyddoch chi beth? Wedi eiliadau go solat o erfyn arno fo i ddod ataf, gwrthod yn bendant wnaeth o, er ei fod o rai munudau yng nghynt wedi dringo cryn ddau ddwsin o risiau'r galeri a rhai ychwanegol o gwmpas y lle hwnnw a'r organ. Ond gwrthod dringo'r pulpud-wyth-gris wnaeth o.

Gostyngeiddrwydd

Mynd i bob man ond y pulpud. Diddorol. Dydw i ddim yn addolwr llefydd fel y pulpud a'r sêr fawr mewn unrhyw gapel fel ag y rhydd y Pabyddion a'r Anglicaniaid bwyslais ar lefydd 'cysegredig' o fewn eu hadeiladau, ond mi ydw i'n credu mewn gostyngeiddrwydd wrth weddio, wrth agor y Gair, wrth arwain oedfa Fedydd a Chymun, ac wrth weinyddu mewn priodasau ac angladdau, ac mi gredaf yn gryf mewn gostyngeiddrwydd wrth wasanaethu pobl yn eu gwahanol amgylchiadau. A llawn cymaint â hynny, credaf mewn gostyngeiddrwydd wrth siarad a thrafod gyda chyd-Gristnogion, a phan glywaf am aelodau eglwysig a gweinidogion yn anghwrtais, dychrynaf am fy mywyd, a chaf f'atgoffa o eiriau'r Apostol Paul: 'Peidiwch â gwneud dim o gymhellion hunanol nac o ymfrost gwag, ond mewn gostyngeiddrwydd bydded i bob un ohonoch gyfrif y llall yn deilyngach nag ef ei hun ...' (Colosiaid 2:3) Ac y mae gweddill y bennod hon yn adrodd nid llinellau ond cyfrolau am safon ein hymddygiad os yw'r label 'Cristion' arnom. 'Cofia'r enw arnom sydd', meddai Eifion Wyn.

Mae rhai pobl yn medru bod yn fwy **CI-aid** eu hymddygiad na chŵn! Gostyngeiddrwydd piau hi ... bob amser.

Iwan Llewelyn**Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd**

Salem, Y Ffôr

**Cynhelir Oedfa Ddatgorffori'r
eglwys uchod**

Nos Fercher**15 Tachwedd, 7.00 p.m.****Capel Ebeneser, y Ffôr.**

Oedfa o dan arweiniad
y Parchg Euros Wyn Jones

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cystadlaethau Cwpan Denman a Thlysau Cyfundeb Lerpwl, 2018

Cystadleuaeth Cwpan Denman

Cywaith gweledol gan Ysgol Sul
(poster, ffotograff, llun neu waith
celf arall, yn mesur dim mwy na 4x3
troedfedd) ar y thema:

'Cymru a Madagascar'
**Cystadleuaeth Tlysau Cyfundeb
Lerpwl**

Cystadlaethau siarad cyhoeddus.

Mae dau ddsosbarth.

Blynnyddoedd ysgol 7-9 a 10-13.

Testun:

'Dwylo dros y Môr'

Y cywaith ac/neu enwau'r cystadleuwyr ar gyfer y siarad cyhoeddus i gyrraedd Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanrafon, Bro Abertawe, Abertawe SA7 0AJ, erbyn dydd Gwener, 27 Ebrill 2018, os gwelwch yn dda.

Geraint Tudur**Ysgrifennydd Cyffredinol**